Gweithgaredd 2: Addysg merched ym Mhacistan

Amcanion dysgu • Adnabod y rhwystrau i addysg sy'n wynebu plant ym Mhacistan, a gwahaniaethu rhwng y rhwystrau a wynebir gan ferched a bechgyn. • Asesu effaith y rhwystrau hyn trwy edrych ar ystadegau addysg o Bacistan. • Ysgrifennu adroddiad neu lunio cyflwyniad, gan flaenoriaethu'r camau y mae angen eu cymryd i wella mynediad i addysg ym Mhacistan.
Adnoddau • Fideo: Dunya Aur Larki ("The World and the Girl") (4 munud 8 eiliad) • Taflen Gweithgaredd: Ystadegau addysg o Bacistan, wedi'u llungopïo a'u torri'n eu hanner (un hanner taflen i bob person ifanc)
Yr amser sy'n ofynnol: 60 munud

Mae Pacistan yn wynebu heriau difrifol wrth ddarparu addysg i'w holl blant. Mae ystadegau diweddar yn awgrymu nad yw 7.3 miliwn, neu un o bob tri, o blant Pacistan yn mynychu'r ysgol.

Cyflwyniad: Beth sy'n atal merched rhag mynd i'r ysgol? (20 munud)

- Dechreuwch trwy drwy ddangos y ffilm animeiddiedig *Dunya Aur Larki* ("The World and the Girl"). Gofynnwch i'r bobl ifanc nodi a rhestru'r holl rwystrau a wynebir gan y ferch wrth iddi geisio cael lle mewn ysgol.
- Gofynnwch i'r bobl ifanc rannu eu syniadau. Efallai y byddant yn disgrifio'r rhwystrau hyn mewn termau gwahanol, ond dylai'r rhestr gynnwys y canlynol:
    - Stereoteipio merched ar sail rhyw; mae hyn yn tarddu o henuriaid sy'n ddynion, ond caiff ei weithredu i ddechrau gan y fam.
    - Merched yn cael eu cadw gartref ac yn cael tasgau i'w gwneud (cyfyngder cymdeithasol).
    - Pellteroedd hir rhwng y cartref a'r ysgol.
    - Diffyg mynediad i gludiant cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer teuluoedd tlawd.
    - Trais a gwrthdaro yn dinistrio ysgolion (oherwydd gwladwriaeth fregus).[1]
    - Trychinebau naturiol (er enghraifft, llifogydd) yn dinistrio ysgolion.
    - "Herio Efa" ("Eve-teasing") (aflonyddu rhywiol) ar y stryd.[2]
    - Seilwaith ysgolion gwael: mae diffyg ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau mewn ysgolion.
    - Diffyg offer.
    - Diffyg dŵr a glanweithdra.
    - Mae'r gyllideb addysg genedlaethol yn isel o'i chymharu â chyllidebau eraill.

[1] "A fragile state is a low-income country characterised by weak state capacity and/or weak state legitimacy, leaving citizens vulnerable to a range of shocks" (Wikipedia).
[2] Term a ddefnyddir yn Ne Asia i ddynodi "the making of unwanted sexual remarks or advances by a man to a woman [or girl] in a public place" (Oxford Living Dictionaries: https://en.oxforddictionaries.com/).

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

  - Anghydraddoldeb.
- Gofynnwch i'r bobl ifanc rannu'r rhestr yn ddau grŵp:
  - Rhwystrau i addysg sy'n effeithio ar ferched.
  - Rhwystrau i addysg sy'n effeithio ar fechgyn a merched.
- Arweiniwch drafodaeth ddosbarth am syniadau'r bobl ifanc. Efallai y bydd eu hymatebion yn eithaf cynnil, felly ceisiwch eu hannog i ymhelaethu yn ystod y drafodaeth. Er enghraifft, mae stereoteipio merched ar sail rhyw yn effeithio ar ferched yn unig. Mewn cymhariaeth, gall diffyg dŵr a glanweithdra mewn ysgolion effeithio ar ferched mewn modd anghymesur am eu bod yn cael mislif, ond mae hefyd yn effeithio ar fechgyn i ryw raddau. Fodd bynnag, mae athro heb offer yn effeithio ar fechgyn a merched fwy neu lai yn yr un modd.

Sut y gellid gwella mynediad i addysg ym Mhacistan? (30 munud)

- Rhowch gopi o'r daflen gweithgaredd sy'n dangos ystadegau addysg Pacistan i bob person ifanc. Rhestrir yr ystadegau ddwywaith ar y daflen, fel y gallwch arbed papur trwy dorri neu rwygo'r taflenni a lungopïwyd yn eu hanner. Trafodwch i ba raddau y mae cynnwys y ffilm yn cael ei gefnogi neu ei adlewyrchu yn yr ystadegau. A ellir defnyddio'r ystadegau i gefnogi unrhyw faterion a godwyd yn y ffilm, neu i'r gwrthwyneb? Cyfatebwch yr ystadegau perthnasol â'r rhestr o rwystrau i addysg.
- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri neu bedwar. Dywedwch wrth y bobl ifanc am gael trafodaeth fer am sut y gellid gwella mynediad i addysg ym Mhacistan, a phenderfynu ar y pum ffordd orau o gyflawni hyn. Yna, dylent ysgrifennu adroddiad byr neu wneud cyflwyniad i egluro'r blaenoriaethau hyn. Efallai y byddant yn gwahaniaethu rhwng y mesurau i'w cymryd gan lywodraeth Pacistan, gan ei chymdeithas sifil, a chan ei rhoddwyr. Eglurwch rolau'r cyrff hyn iddynt, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn y tabl isod.

Llywodraeth Pacistan	Mae gan y llywodraeth gyfrifoldeb cyffredinol am yr hyn sy'n digwydd o fewn ffiniau'r wlad: mae'n casglu trethi, yn penderfynu ar wariant y llywodraeth, yn buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus (er enghraifft trwy adeiladu ysgolion a hyfforddi athrawon) ac yn gweithredu'r gyfraith. Fodd bynnag, mae trais a gwrthdaro yn lleihau effeithiolrwydd y llywodraeth, a chyfeirir at Bacistan yn aml fel "gwladwriaeth fregus".
Cymdeithas sifil Pacistan	Mae'r term hwn yn cynnwys dinasyddion sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth; er enghraifft, ymgyrchoedd ar lawr gwlad dros well addysg, ymgyrchoedd dros hawliau merched a menywod, neu gymorth cymunedol ar gyfer ysgolion ac athrawon (cymdeithasau rhieni-athrawon, cyrff codi arian, dosbarthiadau atodol, ac ati).
Rhoddwyr Pacistan	Gwledydd cyfoethog sydd â rhaglenni cymorth yw'r rhain. Maent yn darparu arian ychwanegol i'r Weinyddiaeth Addysg, yn rhoi arian i gyrff anllywodraethol sydd â rhaglenni addysg, ac yn targedu grwpiau penodol ar gyfer cymorth – er enghraifft, merched neu blant o ardaloedd gwledig.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Gall y mater yn ymwneud â rôl **rhoddwyr** a **chymorth datblygu rhyngwladol** godi. Yn achos Pacistan, mae hwn yn gwestiwn anodd a chymhleth. Mae Pacistan, a llawer o wledydd eraill, yn gwario ymhell islaw targed y Cenhedloedd Unedig o 6% o CMC ar addysg. Mae'r targed hwn yn awgrymu bod y gwledydd hyn yn gallu fforddio gwario cyfran fwy o lawer o'u hincwm cenedlaethol ar addysg, ond eu bod yn penderfynu peidio â gwneud â hynny. Felly, a ddylai rhoddwyr ymyrryd o dan yr amgylchiadau hyn a darparu cymorth ar gyfer addysg? Gallai'r union ateb i'r cwestiwn hwn ddibynnu ar amrywiaeth o ffactorau y tu hwnt i gwmpas yr adnodd hwn, ac yn ymwneud â natur fregus gwladwriaeth Pacistan, ond mae'r cwestiwn cyffredinol yn werth ei drafod.

- Gofynnwch i un neu ddau o grwpiau (mwy os bydd amser yn caniatáu) roi eu cyflwyniadau neu ddarllen eu hadroddiadau i'r dosbarth.

- Dewch â'r dosbarth ynghyd i drafod y cyflwyniadau.
    - I ba raddau y maent yn cytuno o ran yr hyn y dylai'r blaenoriaethau fod?
    - Pa mor gymhleth yw'r her o ddarparu addysg i bawb?
    - A yw addysg i bawb dim ond yn golygu gwario mwy o arian ar ysgolion, neu a yw llwyddiant hefyd yn dibynnu ar newid cymdeithasol ehangach?
    - Sut y mae newid yn digwydd?

Trafodaeth sesiwn lawn (5-10 munud)

- A yw'r bobl ifanc yn credu bod unrhyw reswm pam y mae'r ffilm wedi cael ei galw yn “The World and the Girl”? Er enghraifft, gallai fod wedi cael ei galw yn “School and the Girl”. A yw'r teitl yn dweud unrhyw beth am y rhwystrau i addysg a sut i'w goresgyn?

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae yna rwystrau cymdeithasol i addysg merched – er enghraifft, aflonyddu rhywiol ac agweddau at hawliau merched, neu'r flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i addysg bechgyn. Mae'r rhwystrau i addysg yn mynd tu hwnt i'r prinder ystafelloedd dosbarth ac athrawon.
- Hefyd, mae'r amgylchedd gwleidyddol weithiau'n elyniaethus at addysg, ac yn cynnwys gwrthdaro, trais ac ansicrwydd. Sut y gall "gwladwriaeth fregus" ddarparu addysg i bawb?
- Felly, mae goresgyn rhwystrau yn golygu mwy na darparu lleoedd mewn ysgolion, gwerslyfrau ac athrawon. Mae angen newidiadau cymdeithasol a gwleidyddol mwy.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Taflen Gweithgaredd

Ystadegau Addysg Pacistan

Cyfanswm y boblogaeth:	196 miliwn
Nifer y plant nad ydynt yn mynychu'r ysgol gynradd:	7.3 miliwn (un o bob tri)
% y plant sy'n mynychu'r ysgol gynradd:	66%
% y disgyblion ysgol gynradd sy'n ferched:	44%
Nifer y myfyrwyr fesul athro:	41
Gwariant cyhoeddus ar addysg:	2% o'r CMC (targed y
Cenhedloedd Unedig yw 6%)	
Cyfradd cwblhau'r ysgol gynradd:	67%
Cyfradd cofrestru yn yr ysgol uwchradd:	37%

Ffynhonnell: www.sendmyfriend.org 2014

Ystadegau Addysg Pacistan

Cyfanswm y boblogaeth:	196 miliwn
Nifer y plant nad ydynt yn mynychu'r ysgol gynradd:	7.3 miliwn (un o bob tri)
% y plant sy'n mynychu'r ysgol gynradd:	66%
% y disgyblion ysgol gynradd sy'n ferched:	44%
Nifer y myfyrwyr fesul athro:	41
Gwariant cyhoeddus ar addysg:	2% o'r CMC (targed y
Cenhedloedd Unedig yw 6%)	
Cyfradd cwblhau'r ysgol gynradd:	67%
Cyfradd cofrestru yn yr ysgol uwchradd:	37%

Ffynhonnell:www.sendmyfriend.org 2014

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841